

At:Date/Dyddiad 11 Rhagfyr 2019  
Ask for/Gofynnwch am M Matthews  
Telephone/Rhif ffôn 01446 - 709727  
Fax/Ffacs  
e-mail/e-bost Admissions@valeofglamorgan.gov.uk  
Your Ref/Eich Cyf  
My Ref/Ft Nghyf MM/ADM

Cyngor Bro Morgannwg  
Dysgu a Sgiliau  
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, y Barri,  
CF63 4RU  
Ffôn: (01446) 700111  
www.bromorgannwg.gov.uk



## At: Rhieni plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Bro Morgannwg ar hyn o bryd Ymgynghoreion Rhagnodedig

Annwyl Ymgynghorai,

### CYNGOR BRO MORGANNWG - TREFNIADAU DERBYN I'R YSGOL 2021/2022

Mae Cyngor y Fro yn ymgynghori ar gynnig i newid trefniadau derbyn i ysgolion cymunedol ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/2022 o ran newid i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd a diwygiad bychan i feini prawf gordanysgrifio ysgolion cynradd. Nid yw'r newid a gynigir i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd yn effeithio ar Ysgol Stanwell ac Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn gan mai nhw yw eu hawdurdod derbyn eu hunain ac maen nhw'n pennu eu trefniadau ar wahân. Yn yr un modd, nid effeithir ar holl ysgolion yr Eglwys yng Nghymru a'r holl ysgolion Catholig gan y newidiadau i feini prawf gordanysgrifio ysgolion cynradd gan eu bod yn pennu eu trefniadau ar wahân.

### Adolygiad ar Ddalgylchoedd Ysgolion Uwchradd

Yn rhan o adolygiad parhaus y Cyngor ar gyflenwad a'r galw am leoedd ysgol, mae adolygiad yn angenrheidiol i sicrhau bod ardaloedd yn adlewyrchu anghenion y poblogaethau mae ysgolion yn eu gwasanaethau gan gydnabod bod dewisiadau rhieni yn effeithio ar y sefyllfa gyffredinol.

### Pam rydym yn cynnal adolygiad?

- Mae'r Cyngor wedi newid o system ysgolion bwydo i ardal ddalgylch ar gyfer mynd i addysg uwchradd o fis Medi 2020.
- Mae sefydlu addysg rhyw gymysg yn y Barri wedi effeithio ar ddewis cyntaf rhieni yn yr ardal
- Mae datblygiadau tai eang a rhai eraill yn effeithio ar y niferoedd yn y dalgylchoedd.
- Mae'r niferoedd yn y dalgylchoedd yn anhafal â chapasiti ysgolion uwchradd sy'n eu gwasanaethu felly bydd dewis rhieni yn dwyn effaith. Gall mwy o geisiadau ddod i law na sydd o leoedd yn yr ysgol uwchradd.
- Mae'r Cyngor wedi ailfodelu ysgolion uwchradd ac wedi adeiladu rhai newydd yn eang dros y 10 mlynedd diwethaf.

Mae digon o gapasiti ar y cyfan ym Mro Morgannwg i fodloni anghenion poblogaeth ysgolion uwchradd y dyfodol ond mae rhai dalgylchoedd yn anghytwys. Mae'r galw mewn rhai dalgylchoedd yn sylweddol is na nifer y lleoedd sydd yn yr ysgol ond mae'r galw mewn dalgylchoedd eraill yn fwy na nifer y lleoedd sydd yn yr ysgol.

### Y newidiadau a gynigir i ddalgylchoedd Ysgol Uwchradd

Er mwyn gosod dalgylchoedd cynradd ac uwchradd fel eu bod yn parhau'r galw â chapasiti ysgolion uwchradd yn well, mae'r ffordd ymlaen a ffeirir yn cynnwys:

#### Ardal y Barri

Ysgol Uwchradd Pencoedre

- Trosglwyddo ardal Gwenfô i ddalgylch Ysgol Gyfun Sant Cyres.

Ysgol Uwchradd Whitmore

**Croesewir Gohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg/Correspondence is welcomed in Welsh or English**

- Diddymu statws dalgylch deul y Rhws ac Ysgol Uwchradd Whitmore.
- Trosglwyddo ardal y Rhws i Ysgol Gyfun y Bont-faen.

### **Ardal y Bont-faen**

Ysgol Gyfun y Bont-faen

- Cynyddu poblogaeth y dalgylch trwy gynnwys ardaloedd yn y Rhws ynddo.

### **Ardal Llanilltud**

Ysgol Llanilltud Fawr

- Trosglwyddo ardal y Rhws i ddalgylch y Bont-faen.

### **Ardal Penarth**

Ysgol Gyfun Sant Cyres

- Cynyddu poblogaeth y dalgylch trwy gynnwys ardaloedd Gwenfô, Penarth a'r Sili i'r dalgylchoedd.

Gellir gweld y papur adolygu dalgylchoedd ysgolion uwchradd yn llawn, gyda'r newidiadau a gynigir, yn [www.valeofglamorgan.gov.uk/admissionconsultation2021/22](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/admissionconsultation2021/22) Mae Fforwm Derbyn y Cyngor wedi ystyried y cynnig hwn.

Bydd y newidiadau a gynigir yn sicrhau dosraniad mwy cytbwys o leoedd ysgol i ateb y galw yn y dyfodol gan ddisgyblion sydd angen lle ysgol o fewn dalgylchoedd diffiniedig.

### **Newid i feini prawf gordanysgrifio Ysgolion Cynradd**

Mae'r Cyngor yn ystyried newid bychan i drefniadau derbyn a'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion cynradd cymunedol er mwyn sicrhau y bydd y rhai sy'n byw yn nalgylch ysgol yn cael blaenoriaeth uchel o ran cael eu derbyn i ysgol pan fo mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael.

Mae'r diwygiad yn ymwneud â'r maen prawf pellter a ddefnyddir wrth ddyrannu lleoedd pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael mewn dalgylch. Dan y trefniadau presennol, pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael mewn dalgylch, dyrennir lleoedd i'r rhai sy'n byw bellaf o ysgol wahanol sydd â lle ar gael fel y'i mesurir gan System Gwybodaeth Ddaearyddol y Cyngor (GIS). Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at blant sy'n byw yn agos i ysgol eu dalgylch yn cael eu gwrthod. Bydd y diwygiad yn blaenoriaethu'r rhai sy'n byw agosaf at ysgol gynradd pan fo nifer y ceisiadau o'r tu fewn i ddalgylch yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael fydd yn cefnogi mynychu ysgol leol plentyn. Amgaeir copi o'r trefniadau cynradd presennol ac arfaethedig a gallwch eu gweld ar lein hefyd yn [www.valeofglamorgan.gov.uk/admissionconsultation2021/22](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/admissionconsultation2021/22)

Mae eich barn yn bwysig i ni ac mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni.

Gallwch:

- Gwblhau ffurflen ymateb ar-lein yn: [www.valeofglamorgan.gov.uk/admissionconsultation2021/22](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/admissionconsultation2021/22)
- Cwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb wedi'i hatodi i gyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen
- E-bostio'r ffurflen neu'ch sylwadau i [Admissions@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:Admissions@valeofglamorgan.gov.uk)

Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â'r adran dderbyn ar 01446 709725/727/844 neu [Admissions@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:Admissions@valeofglamorgan.gov.uk)

Yn gywir

*Mike Matthews*

M Matthews (Mr)  
Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau

**Croesewir Gohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg/Correspondence is welcomed in Welsh or English**

## **Cwestiynau Cyffredin**

### **Beth yw'r prif newidiadau i'r polisi derbyn?**

Cynigir diwygio dalgylchoedd ysgolion uwchradd er mwyn iddynt adlewyrchu anghenion poblogaethau'r ysgolion a chyflwyno newid bychan i feini prawf gordanystrifio ysgolion cynradd er mwyn i'r rhai sy'n byw agosaf at ysgol gael blaenoriaeth pan fo mwy o geisiadau o'r tu mewn i ddalgylch nag o leoedd ar gael.

### **Ar ba ysgolion bydd y newid a gynigir yn effeithio?**

Dim ond ar ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol y bydd y newidiadau a gynigir yn effeithio.

### **A fydd y newid hwn yn effeithio ar Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr?**

Na fydd. Mae pob Ysgol Sefydledig a phob Ysgol wirfoddol a gynorthwyr yn awdurdod derbyn ei hun ac maent yn pennu eu trefniadau ar wahân.

### **Ydy hyn yn effeithio ar y broses ymgeisio ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd?**

Nac ydy. Gall rhieni ymgeisio am ysgol o'u dewis yn y ffordd arferol a rhoddir meini prawf gordanystrifio ar waith fel sy'n briodol pan fo mwy o ymgeiswyr na'r lleoedd sydd ar gael.

### **A fydd hawl gan ddisgyblion i gael cludiant am ddim?**

Darperir cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion sy'n byw tair milltir neu ragor i ffwrdd o'u hysgol ddalgylch agosaf neu ddynodedig.

Byddai trefniadau cludiant yn cael eu cadw ar gyfer y disgyblion hynny sydd ar hyn o bryd yn cael eu cludo i'r ysgol am ddim i ysgol uwchradd yr effeithir arni tan i'r disgybl olaf orffen yn yr ysgol honno.

### **A fydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud newidiadau eraill i'w bolisi derbyn?**

Na fydd. Nid oes unrhyw newidiadau eraill wedi eu cynllunio ar gyfer blwyddyn derbyn 2021/22.

## **Amserlen**

- Ymgynghoriad yn dod i ben ar 3 Chwefror 2020
- Ystyried sylwadau a chyflwyno adroddiad i'r Cabinet Mawrth 2020
- Penderfynu ar drefniadau derbyn erbyn 15 Ebrill 2020
- Os mabwysiadir y newidiadau i'r polisi derbyn, byddant yn dod i rym ar 1 Medi 2021.

**Dyma grynodeb o'r meini prawf presennol ac arfaethedig ar gyfer derbyn i ysgolion pan fo rhagor o geisiadau na sydd o leoedd mewn ysgolion cynradd.**

Bydd plant â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig, pan fo'r ysgol wedi ei henwi fel y lleoliad mwyaf priodol, yn cael eu derbyn cyn cymhwyso'r meini prawf sydd ar waith pan fo mwy o alw nag o leoedd.

**Trefniadau Derbyn i Ysgolion Cynradd ar hyn o bryd**

**Meini prawf a ddefnyddir i ddyrannu lleoedd mewn ysgolion cynradd, yn y drefn flaenoriaeth, pan fo rhagor o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael mewn ysgolion.**

1. Plant sydd â thystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.
2. Plant sy'n byw'n barhaol o fewn dalgyrch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis. Bydd rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa barhaol plentyn os gofynnir am hynny. Os bydd gordanysgrifio yn y categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn dyrannu lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:
  - (a) Plant sydd â sail feddygol neu gymdeithasol gref ym marn y Cyngor dros eu derbyn i'r ysgol gynradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn ar sail rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath).
  - (b) Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd mewn perthynas ag oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf fydd â'r flaenoriaeth uchaf.
  - (c) Plant sy'n byw bellaf o ysgol wahanol i'r un a ddewiswyd, y bydd lle ar gael ynddi, ar sail System Gwybodaeth Ddaearyddol y Cyngor (GIS). Y rhai sy'n byw bellaf o'r ysgol wahanol fydd â'r flaenoriaeth. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fyddai disgyblion o'r tu allan i'r dalgyrch yn cael eu hystyried.
3. Plant nad ydynt yn byw ar hyn o bryd yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol, ond y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol cyn i'r tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo ddechrau. Os bydd gordanysgrifio yn y categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn dyrannu lleoedd yn y drefn flaenoriaeth ganlynol er mwyn creu trefn ddewisol:
  - (a) Plant sydd â sail feddygol neu gymdeithasol gref ym marn y Cyngor dros eu derbyn i'r ysgol gynradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn ar sail rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath).
  - (b) Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd mewn perthynas ag oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf fydd â'r flaenoriaeth uchaf.
  - (c) Plant sy'n byw bellaf o ysgol wahanol i'r un a ddewiswyd, y bydd lle ar gael ynddi, ar sail System Gwybodaeth Ddaearyddol y Cyngor (GIS). Y rhai sy'n byw bellaf o'r ysgol wahanol fydd â'r flaenoriaeth. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fyddai disgyblion o'r tu allan i'r dalgyrch yn cael eu hystyried.
4. Plant sydd â sail feddygol neu gymdeithasol gref ym marn y Cyngor dros gael eu derbyn i'r ysgol gynradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn i ysgol benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath). Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, bydd meini prawf (5) a (6), yn nhrefn blaenoriaeth, yn berthnasol.
5. Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr o'r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd yn ôl oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf fydd â'r flaenoriaeth uchaf.
6. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion o ran disgyblion eraill yn y grŵp oedran, mae'r Cyngor yn ystyried yn benodol agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol, a gaiff ei fesur gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael; bydd y rhai sy'n byw'n agosach yn cael blaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol.

**Meini prawf i'w defnyddio i ddyrannu lleoedd mewn ysgolion uwchradd pan fo rhagor o geisiadau na sydd o leoedd ar gael mewn ysgolion, yn nhrefn blaenoriaeth.**

1. Plant sydd â thystiolaeth i gadarnhau eu bod yn derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal yn y gorffennol yn unol ag adran 22 Deddf Plant 1989.
2. Plant sy'n byw'n barhaol o fewn dalgylch penodol yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis. Bydd rhaid rhoi tystiolaeth o breswylfa barhaol plentyn os gofynnir am hynny. Os oes rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.
3. Plant nad ydynt yn byw ar hyn o bryd yn barhaol yn nalgylch penodol yr ysgol, ond y mae eu rhieni wedi argyhoeddi'r Cyngor, ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer derbyn ffurflenni dewis, y bydd y plentyn yn byw yn nalgylch yr ysgol cyn i'r tymor y mae'r cais yn berthnasol iddo ddechrau. Os oes rhagor o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, defnyddir meini prawf (4), (5) a (6) i'w rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.
4. Plant sydd â sail feddygol neu gymdeithasol gref ym marn y Cyngor dros gael eu derbyn i'r ysgol gynradd benodol h.y. plant yr argymhellir eu derbyn i ysgol benodol oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu addysg arbennig. (Bydd angen argymhellion ysgrifenedig gan yr asiantau allanol priodol neu ymgynghorwyr proffesiynol mewn achosion o'r fath). Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr yn y categori hwn yn unig, bydd meini prawf (5) a (6), yn nhrefn blaenoriaeth, yn berthnasol.
5. Plant sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn academiaidd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei dderbyn iddi. Os oes mwy o geisiadau na nifer y lleoedd gan ymgeiswyr o'r categori hwn yn unig, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ac yn dyrannu lleoedd yn ôl oedran brawd neu chwaer ieuengaf y disgybl yn yr ysgol, a'r ieuengaf fydd â'r flaenoriaeth uchaf.
6. Wrth bennu ceisiadau ar gyfer derbyn i ysgolion o ran disgyblion eraill yn y grŵp oedran, mae'r Cyngor yn ystyried yn benodol agosrwydd cartref y disgybl at yr ysgol, a gaiff ei fesur gan y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael; bydd y rhai sy'n byw'n agosach yn cael blaenoriaeth. Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaeryddol (GIS) i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol.

PROFORMA YMGYNGHORI AR GYFER SYLWADAU MEWN PERTHYNAS Â:

CYNGOR BRO MORGANNWG - TREFNIADAU DERBYN I'R YSGOL 2020/2021

NEWID I DDALGYLCHOEDD YSGOLION UWCHRADD A MEINI PRAWF GORDANYSGRIFIO  
YSGOLION CYNRADD

DYDDIAD GORFFEN YR YMGYNGHORIAD: 3 CHWEFROR 2020

Ydych chi'n cefnogi'r newid i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd a meini prawf gordanysgrifio ysgolion cynradd?

YDW

NAC YDW

Sylwadau:-

Enw a Chyfeiriad:-

**Sylwer:** Mae'r daflen hon at ddibenion ymgynghori'n unig. Caiff yr holl sylwadau a geir o'r broses ymgynghori eu hystyried, ond ni roddir ymatebion unigol. Dychwelwch y proforma i Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ, Derbyn i Ysgolion 2021/22, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holttwn, y Barri. CF63 4RU neu e-bostiwch i [Admissions@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:Admissions@valeofglamorgan.gov.uk) Defnyddiwch ddalen ychwanegol os bydd angen.

**Croesewir Gohebiaeth yn y Gymraeg neu Saesneg/Correspondence is welcomed in Welsh or English**